Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# HYSBYSIAD YNGHYLCH GWELLIANNAU
# NOTICE OF AMENDMENTS

## Cyflwynwyd ar 17 Ionawr 2013
## Tabled on 17 January 2013

### Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)
### Public Audit (Wales) Bill

**Jane Hutt** **45**

Schedule 3, page 34, after line 39, insert—

*'Dismissal in relation to transfer*

( ) (1) Sub-paragraphs (2) and (3) apply—

(a) to an employee of the Auditor General;

(b) to an employee of the WAO whose employment transferred under paragraph 5.

(2) If an employee to whom this sub-paragraph applies is dismissed, that employee is to be treated as unfairly dismissed for the purposes of Part X of the Employment Rights Act 1996 if the sole or principal reason for the dismissal is—

(a) the transfer mentioned in paragraph 5(1); or

(b) a reason connected with the transfer that is not an economic, technical or organisational reason entailing changes in the workforce.

(3) If an employee to whom this sub-paragraph applies is dismissed, the reason for that dismissal is to be treated for the purposes of sections 98(1) and 135 of the Employment Rights Act 1996 (reason for dismissal) as having been for redundancy if the sole or principal reason for the dismissal is a reason connected with the transfer mentioned in paragraph 5(1) that is an economic, technical or organisational reason entailing changes in the workforce.

(4) But sub-paragraph (2) does not apply if the application of section 94 of the Employment Rights 1996 Act (right not to be unfairly dismissed) to the dismissal is excluded by or under any provision of that Act, the Employment Tribunals Act 1996 or the Trade Union and Labour Relations (Consolidation) Act 1992.'.

Atodlen 3, tudalen 34, ar ôl llinell 38, mewnosoder—

'*Diswyddo mewn perthynas â throsglwyddo*

( ) (1) Mae is-baragraffau (2) a (3) yn gymwys—

(a) i gyflogai i'r Archwilydd Cyffredinol;

(b) i gyflogai i SAC y trosglwyddir ei gyflogaeth o dan baragraff 5.

(2) Os diswyddir cyflogai y mae'r is-baragraff hwn yn gymwys iddo, mae'r cyflogai hwnnw i'w drin fel petai wedi cael ei ddiswyddo'n annheg at ddibenion Rhan X o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996 os yr unig reswm neu'r prif reswm dros y diswyddiad yw—

(a) y trosglwyddiad a grybwyllir ym mharagraff 5(1); neu

(b) rheswm sy'n gysylltiedig â'r trosglwyddiad nad yw'n rheswm economaidd, technegol neu sefydliadol sy'n peri newidiadau yn y gweithlu.

(3) Os diswyddir cyflogai y mae'r is-baragraff hwn yn gymwys iddo, mae'r rheswm dros y diswyddiad hwnnw i'w drin at ddibenion adrannau 98(1) a 135 o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996 (rheswm dros ddiswyddo) fel petai wedi bod am fod y swydd wedi ei dileu os yr unig reswm neu'r prif reswm dros y diswyddiad yw rheswm sy'n gysylltiedig â'r trosglwyddiad a grybwyllir ym mharagraff 5(1) sy'n rheswm economaidd, technegol neu sefydliadol sy'n peri newidiadau yn y gweithlu.

(4) Ond nid yw is-baragraff (2) yn gymwys os yw cymhwyso adran 94 o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996 (yr hawl i beidio â cael eich diswyddo'n annheg) i'r diswyddiad wedi ei eithrio gan neu o dan unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau yn y Ddeddf honno, Deddf Tribiwnlysoedd Cyflogaeth 1996 neu Ddeddf Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992.'.